



# Negesydd

Rhif 22

Hydref 2021

[www.ubc.cymru](http://www.ubc.cymru)

# Croeso...

Golygyddol	2
Nodiadau Cenhadol	3
Blwyddyn o dwf	4 - 5
Newyddion Cymru	6
Newyddion y Byd	7
Dod i nabod: Hannah Smethurst	8

Y *Negesydd* / *The Messenger* yw cylchlythyr tymhorol Undeb Bedyddwyr Cymru, ac ers blynyddoedd bu'n ffordd bwysig i ni rannu newyddion, anogaeth a datblygiadau gydag eglwys a chymanfaoedd ar draws yr Undeb – a hynny yn y ddwy adain iaith. Byddwch wedi sylwi bod y *Negesydd* wedi cael ei ailwampio eto! Rydym yn bwriadu ei gyhoeddi ychydig yn llai rheolaidd o hyn ymlaen (gan ostwng i dri rhifyn y flwyddyn) ond gydag erthyglau ac eitemau hirach. Y rheswm am hyn yw y gallwn bellach gyhoeddi eitemau byrrach yn haws ar ein gwefan newydd a thrwy gylchlythyrau e-bost, gan adael lle yma i fynd yn ddyfnach ar drywydd yr hyn y mae Duw yn ei wneud yn ein plith ac yn y byd.

Ac mae llawer i'n hannog o fewn bywyd ein Hundeb ar hyn o bryd, er bod llawer ohonom yn ddi-os yn teimlo ychydig yn flinedig ar ôl bron i ddwy flynedd o gyfyngiadau ar fywyd yr eglwys. Fel y gwelwch yn y rhifyn hwn, er gwaethaf y pandemig rydym wedi cael nifer o interniaethau

llwyddiannus dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda thwf ysbrydol gwirioneddol a bendith i'r interniaid a'r eglwys fel ei gilydd (tudalennau 4-5 ac 8). Mae rhaglenni cenhadol Forge wedi bod yn chwa o awyr iach i lawer ohonom, gan roi cyfle defnyddiol a phrin wrth i ni gamu'n ôl a dychwelyd at egwyddorion sylfaenol bywyd o ddilyn Iesu a bod yn eglwys (gw. tudalen 3 gyferbyn). Ac er gwaethaf y ffaith bod y pandemig wedi ysgwyd llawer o'n bywyd eglwysig cyfarwydd, fel y clywodd Cymanfa Gwent yn ddiweddar, mae hefyd wedi rhoi cyfle gwirioneddol i ni estyn allan o'r newydd at gymunedau a phobl sy'n sychedu am wir fywyd (gw. tudalen 6).

Gobeithiwn y byddwch yn *mwynhau'r* rhifyn hwn o'r *Negesydd* ac os oes gennych adborth neu awgrymiadau ar gyfer eitemau yn y dyfodol, anfonwch e-bost at [carwyn@ubc.cymru](mailto:carwyn@ubc.cymru)

**Carwyn Graves**, Golygydd

(ar ran staff UBC)

## Nodiadau Cenhadol - Adolygu Forge

Os ydych yn gyrru car newydd efallai eich bod wedi darganfod bod gennych becyn trwsio teiars yn y cefn y dyddiau hyn yn hytrach nag olwyn sbâr. Yr addewid gan y cwmni yw mai'r 'cwbl mae'n rhaid i chi ei wneud' yw chwistrellu cynnwys y can i mewn i'r teiar fflat a bant â chi. Mae'n swnio fel ateb perffaith! Does dim rhaid i chi ddefnyddio jac, cael trafferth gyda byllt olwyn sy'n rhy dynn nac ychwaith wagio cynnwys eich cist i godi'r teiar sbâr. Mae'r ateb yn y can. Y drafferth yw, dim ond pan fydd hi'n rhy hwyr y byddwch yn gwybod os nad yw'r datrysiad newydd hwn yn gweithio, hyd yn oed!

Os ydym yn onest, byddai'n well gan y rhan fwyaf ohonom gael atebion hawdd i lawer o heriau bywyd. Gwyddom hefyd nad yw'r 'ateb cyflym' bob amser yn darparu datrysiad hirdymor. Mae llawer o eglwys ledled Cymru yn gofyn cwestiynau mawr am eu dyfodol: Sut ydyn ni'n dal i fynd? Pwy sy'n mynd i'n dilyn ni? Ble mae'r cenedlaethau coll a sut mae eu cyrraedd heddiw? Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Undeb Bedyddwyr Cymru wedi bod yn buddsoddi mewn hyfforddiant cenhadol. Nid yw'r hyfforddiant Cenhadaeth Forge yr ydym wedi'i ddewis yn addo rhyw ateb cyflym ond gobeithio y bydd yn caniatáu i ni feddwl yn ddyfnach a'n harfogi'n fwy effeithiol i fod yn eglwys mewn cymdeithas ôl-Gristnogol.

Wrth wraidd hyn mae'r cwrs hyfforddi cenhadol dwy flynedd 'Ethos' a ddechreuodd ym mis Medi 2020 gyda chyfle i fyfyrion ddyfnach ynghylch ein dealltwriaeth o bwy yw Duw, ei Eglwys, pwy ydym ni yng Nghrist a pha fath o arweinwyr y mae angen i ni fod er mwyn dirnad i le mae Duw yn ein harwain mewn cenhadaeth. Mae rhyw chwe deg o bobl o bob cwr o Gymru wedi cyfarfod ar-lein bob pythefnos gyda Cameron Roxburgh o Ganada i ddarlennu, dysgu a thrafod. Mae'r rhan fwyaf o bobl wedi dod gyda grŵp bach o arweinwyr o'u heglwys ac mae rhai yn mynychu ar eu pennau eu hunain.

Mae grŵp gwahanol o bobl hefyd wedi bod yn dilyn y rhaglen 'Darganfod' sy'n

cyfarfod unwaith y mis i fyfyrion a siarad am arferion cenhadol. Drwy gydol 2020 roedd nifer dda yn mynychu bob mis ac mae llawer wedi dewis parhau gyda rhai unigolion newydd yn ymuno â 'Darganfod' ym mis Medi. Y llynedd canolbwyntiwyd ar yr hyn y mae bod yn 'bobl genhadol' yn ei olygu i ni heddiw, a hynny wedi'i wreiddio yn y Beibl, ein harferion o fewn yr eglwys a sut rydym yn byw ymhlith ein cymdogion. Eleni rydym yn edrych ar saith disgyblaeth sy'n llunio'r eglwys ar gyfer cenhadaeth ac mae lle i ragor os hoffech ymuno. Dyma oedd gan un o'n gweinidogion iau i'w ddweud am yr hyfforddiant:

*"Er bod Cenhadaeth yn un o orchymnion mwyaf Iesu i'r Disgyblion, i ni fel Cymry wedi colli yr awydd neu'r gallu i fynd allan o bedwar wal y capel a dweud wrth eraill y Newyddion Da am Iesu Grist. Mae Darganfod wedi agor ein meddyliau ar sut i wneud pethau syml i ddechrau'r sgwrs am ffydd unwaith eto yn ein hardalaoedd.*

*Pwysigrwydd cymuned yn cenhadu. Pwysigrwydd gweithio gyda thîm yn ein capeli a gofalaethau. Pwyslais ar fywyd gweddigar.*

*Er ein bod yn cyfarfod drwy sgrin, rydw i wedi dod i adnabod llawer o bobl ar draws Gymru. Heb Darganfod dwi'n eitha sicr bydden ni byth wedi cael y cyfle i wneud hyn. Trafod synidadau hen a newydd gyda phobl sydd yn ceisio yr un uchelgais."*

*Parch Sian Elin Thomas, Bro Cemaes ac Emlyn*

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn ymuno ag un o'r cyrsiau hyn nawr neu yn y dyfodol, mae croeso i chi e-bostio [simeon@ubc.cymru](mailto:simeon@ubc.cymru).

**Simeon Baker**



Mae Mia wedi bod yn gwneud interniaeth yng nghapeli Gomer a Seion, Abertawe, dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma ni'n manteisio ar y cyfle i ofyn iddi hi a'i mentoriaid am y flwyddyn....

Ers mis Medi fel rhan o fy interniaeth rydw i wedi bod yn rhan o nifer o bethau gwahanol megis gwasanaethau Gomer a Seion, mynd i astudiaeth ar nos Llun a nos Iau yn wythnosol, clybiau ieuencid, sesiynau mentora gydag Elen Rennolf a Hannah Smethurst a sesiynau wythnosol gyda Derek. Dwi di bod wrth fy modd yn cael cymaint o amser i astudio a chanolbwyntio ar fy mherthynas gyda Duw dros y 10 mis diwethaf.

Yn ystod y flwyddyn dwi di bod yn astudio nifer o lyfrau a phynciau gwahanol:


- *Cross-examined* gan Mark Meynell, llyfr sy'n edrych ar agweddau gwahanol o'r groes a'r iawn.
- *Taking God at his Word* gan Kevin DeYoung, llyfr sy'n trafod natur Gair Duw a sut mae hwnna yn effeithio ar ein dealltwriaeth ohono.
- *How to Pray* gan Pete Greig, llyfr sydd yn mynd trwy beth yw hi i weddio a sut i wneud hynny'n feiblaidd.

Gydag Elen bues i'n astudio'r Beibl. Wnaethom ni ddarllen a thrafod

Philipiaid, Galatiaid, Iago, Ruth ac 2 Corinthiaid. Yna gyda Hannah nes i astudio llyfr o'r enw *Stay Salt*, llyfr sy'n trafod agweddau gwahanol o efengyl, agweddau pobl tuag at yr efengyl, heriau gallwn wynebu a sut i rannu'r efengyl mewn "post christian culture". Ysbrydolodd y llyfr llawer o sgysiau am ein profiadau personol a sut gallwn ni addasu y ffordd byddwn ni'n efengylu. Yn y sesiynau gyda Derek rydym wedi bod yn edrych ar wahanol elfennau o ddiwinyddiaeth megis – diwinyddiaeth Beiblaidd, Cristoleg a diwinyddiaeth drinitariadd. Dwi hefyd wedi bod yn cyflawni tasgau ysgrifenedig ar bob sesiwn.


Mae fy nealltwriaeth o Dduw a'r Beibl wedi datblygu gymaint. Mae fy mherthynas a dibyniaeth ar Dduw wedi tyfu ac rydw i wedi tyfu yn fy ngallu ymarferol i drafod y Beibl, esbonio'r Beibl a rhannu'r Beibl. Oherwydd yr interniaeth dwi mewn sefyllfa gwell i fyw bywyd fel Cristion ond hefyd gwneud y gwaith mae Duw yn galw fi i wneud, megis pregethu, rhannu Gair Duw a gwasanaethu'r eglwys.

**Mia Anderson**



"Er gwaethaf y diffyg cyfleon ymarferol oherwydd cyfyngiadau cofid, mae Mia wedi cael budd mawr allan o'r astudiaethau personol, y mentora, gwersi amrywiol a'r cyfle i ganolbwyntio ar ei pherthynas â Duw. Mae'r interniaeth wedi bod yn rhan naturiol o'i datblygiad ysbrydol gyda'i heglwys, Gomer Abertawe lle mae wedi clywed yr efengyl, dod yn Gristion, cael ei bedyddio a dod yn aelod. Mae Elen Rennolf a Hannah Smethurst wedi bod yn rhyfeddol o ymroddedig i Mia ac i'r cynllun ac mae gweddill yr eglwys wedi ei chefnogi hi ac wedi cael budd allan o wneud hynny. Mae Mia wedi cael ei herio a'i hannog ynglŷn â'i ffydd.

Ar ddiwedd ei chyfnod ar yr interniaeth fe agorodd clybiau ieuencid Seion a Hope Siloh unwaith eto a braf oedd cael gweld ei dawn yn arwain gemau a gweithgareddau a rhannu yr efengyl gyda'r bobl ifainc. Mae hefyd wedi bod yn pregethu yn Gomer ac yng Nghaersalem Newydd, ac wedi cael croeso mawr wrth ddangos dawn cyfathrebu ac efengylu. Rydym fel eglwys yn gyffrous iawn i weld ei datblygiad dros y blynyddoedd nesaf ac i weld y gwaith mae Duw am wneud trwyddi."



"Mae'r flwyddyn ddiwethaf yng nghwmni Mia wedi bod yn frainc; dwi wedi gweld hi'n tyfu mewn ffydd a dealltwriaeth o'i Harglwydd wrth i ni astudio'r Beibl gyda'n gilydd yn wythnosol - ac wedi tyfu yn ei pherthynas gyda Duw a dysgu yn ddyfnach beth yw byw fel Cristion wrth i ni ddarllen llyfrau y cwrs. Un o'r pethau mwyaf nodweddiadol i mi fel un o'i mentoriaid oedd cael gweld sut mae gair Duw a'r Ysbryd Glan wedi treuddio trwy sawl agwedd o fywyd Mia dros y cyfnod. Wrth iddi drafod ei pherthynas gyda'i theulu, neu rhannu am sgysiau am Iesu gyda'i ffrindiau - mae'n amlwg bod Crist ar waith ym mywyd Mia. Dwi'n edrych ymlaen i barhau mewn cyfeillgarwch gyda Mia wrth i ni ddod at ddiwedd ei interniaeth, ac yn awyddus i weld sut fydd Duw yn ei defnyddio hi yn Gomer a thu hwnt yn y dyfodol."


**Elen Rennolf**  
Mentor

## ...a blwyddyn o fendith...



Mae Gruff Jenkins hefyd wedi cwblhau interniaeth gyda ni yn ddiweddar, ac fe rannodd ei fod:

"... ddiolchgar i Dduw am fendithion y flwyddyn – deuddeg mis yn llawn o gyfleoedd a phrofiadau newydd; cyfarfod pobl newydd a dod i'w hadnabod. Treuliais lawer o'm hamser yn astudio'r Gair o dan gyfarwyddyd Gweinidog Y Tabernacl, Parchg John Treharne. Bu John yn help mawr i mi drwy gydol y flwyddyn. Unwaith yr wythnos buomm yn cyfarfod i drafod yr hyn a ddysgais o'm darllen dros yr wythnos flaenorol, ac roedd cyfle i weddio gyda'n gilydd. Bûm yn pregethu yn wythnosol mewn nifer o gapeli lleol, a hoffwn ddiolch o galon i'r cynulleidfaoedd hyn am eu eu croeso cynnes, eu gwrandawriad, eu hamynedd, a'u hadborth adeiladol!"



## Newyddion o blith....

### Undeb Bedyddwyr Cymru

#### Perygl o 'fynd yn ôl'

Mae gan eglwysi heddiw y cyfle gorau ers yr Ail Ryfel Byd i ddod â gobaith i bobl sydd wedi eu hysgwyd gan y pandemig Coronafeirws drwy ddweud wrthynt am gariad Iesu. Dyna oedd un o negeseuon canolog y Parch. Gavin Calver, Prif Swyddog Gweithredol y Gynghrair Efengylaidd, a oedd yn siaradwr gwadd yng nghyfarfod cyngor yr Hydref Cymanfa Bedyddwyr Gwent ar 30fed Medi.

Dywedodd Gavin fod y niferoedd mewn oedfaon eglwysi yn y DU yn syth ar ôl y rhyfel yn anferthol ond iddynt ddisgyn wedyn yn ôl i'r lefelau welwyd cyn y rhyfel. Pam? Roedd y byd yn chwilio am obaith ond roedd yr eglwys eisiau dychwelyd i'r hyn oedd yn gyfarwydd. Treuliodd ormod o amser ac egni yn gofalu amdani'i hun ac yn dychwelyd i'w hen arferion. Erbyn iddi fod yn barod i estyn allan i'r sawl a oedd wedi bod yn chwilio'n daer am obaith, roedden nhw wedi dod dros y peth ac wedi symud ymlaen.

"Rwy'n credu mai'r tymor rydyn ni ynnddo nawr yw'r agosaf i hynny ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Dwi ddim yn cymharu Covid â rhyfel byd ond mae pobl yn dal i chwilio'n daer am obaith yn eu bywydau. Mae'n debyg na fyddant yn dod i'n hadeiladau felly mae'n rhaid i ni fynd allan i'n cymunedau a dangos cariad Iesu gyda gweithredoedd o garedigrwydd a thosturi," parhaodd Gavin. "Yn fy marn i, fyddwn ni fyth, byth yn cael y cyfle gwych hwn eto."

Geoff Champion, Ysgrifennydd Cymanfa Gwent



#### Bywyd newydd ym Maldwyn

Roeddem wrth ein bodd o gael clywed am sawl bedydd yn ystod yr wythnosau diwethaf, pob un mewn capeli gwledig yn Sir Drefaldwyn. Bu pob un ohonynt yn dilyn traddodiad hyfryd capeli'r cylch, sef trwy drochi mewn nant leol. Maggie Rich, gweinidog un o'r capeli hyn, sy'n adrodd yr hanes:

Ar brynhawn Sul cynnes a heulog braf, ymgasglodd teulu, ffrindiau ac aelodau'r eglwys yn y maes i lawr ger y ffrwd i weld bedydd Andrew. O amgylch y cae, safai nifer o deuluoedd ffermio i "wyllo'r gwartheg" a'u hatal rhag dod yn rhy agos i edrych ar yr hyn oedd yn digwydd. Roedd dŵr clir fel crisial yn llamu dros y cerrig ac yn llifo i mewn i'r pwll.

Wrth i Andrew benlinio roedd tawelwch disgwylgar - yr unig sain oedd alaw'r dŵr a'r adar yn y coed. Ar ôl cyffesu ei ffydd yn Iesu Grist fel Mab Duw a'i Achubwr personol, bedyddiwyd Andrew yn enw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân. Wrth iddo godi allan o'r dŵr cododd Andrew ei wyneb i'r nefoedd a sibrwd, "Diolch, Arglwydd."

Yn diferu, ond yn fendigedig o hapus, aeth Andrew at sied y tractor i sychu a gwnaeth pawb eu ffordd yn ôl i gapel y pentref, lle buom yn dathlu'r cymun a derbyn Andrew yn aelod o'r eglwys.

Maggie Rich

#### Gofod 'Renew Wellbeing'

Mae eglwysi Tref-y-clawdd a Knucklas yn ddwy o nifer gynyddol sy'n agor eu hadeiladau i gynnal y sesiynau hyn. Mae croeso i unrhyw un ddod i'r adeilad i roi cynnig ar waith cefft, lliwio myfyriol, dod â hobi i'w rhannu ag eraill, cael sgwrs a phaned neu fwynhau eistedd mewn lle tawel a heddychlon - gyda'r cynnig agored o weddi. Mae croeso i bawb ac nid oes tâl: syniad syml ond effeithiol.

### Mawr ddiolch am apêl Timothy Richard



#### Apêl Timothy Richard Undeb Bedyddwyr Cymru

Mae 'Apêl Timothy Richard' bellach wedi dod i ben gydag eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru wedi codi'r cyfanswm anhygoel o £37,783. Mewn cyfnod digon heriol i gynnal apêl mae ymateb yr eglwysi wedi bod mor hael.

Mae BMS wedi ysgrifennu i ddweud: "Mae hwn yn ganlyniad gwych ac roeddem wrth ein bodd yn derbyn y cyfraniad hwn! Rydym yn ddiolchgar iawn am bopeth y mae UBC wedi'i wneud i hyrwyddo'r prosiect hwn. Gyda'r plant sy'n ffoduriaid wedi profi'r fath ddiodefaint, mae addysg yn rhoi'r gobaith iddyn nhw a'u rhieni am ddyfodol gwell. Diolch i chi, a'r holl eglwysi ac unigolion sydd wedi cefnogi'r apêl hon, am sefyll gyda'r plant hyn a darparu ar gyfer eu hanghenion mewn amgylchiadau mor enbyd."

Gellir gweld neges bersonol o ddiolch oddi wrth Gyfarwyddwr BMS, Dr Kang San Tan, ar ein gwefan: [www.ubc.cymru/timothy-richard-diolch/](http://www.ubc.cymru/timothy-richard-diolch/)

### COP-26: datgan, gweddi a gweithredu

Mae'r hinsawdd fyd-eang yn ansefydlogu yn gyflym a'r ddynoliaeth sy'n gyfrifol am hyn. Nid oes anghydfod gwyddonol am hyn mwyach, ac mae ymrwymadau llywodraethau i leihau allyriadau bellach yn hanfodol. Yn y cyd-destun hwn, mae cyfarfod nesaf y COP, sy'n digwydd rhwng Sul 31 Hydref a Gwener 12 Tachwedd yn Glasgow, o bwysigrwydd hanesyddol.

Mae hyn wedi'i gydnabod gan grwpiau gwyddonol ac ymgyrchwyr ledled y byd, ac mae Ffederasiwn y Bedyddwyr Ewropeaidd hefyd wedi rhyddhau datganiad mewn perthynas â'r gynhadledd. Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn cymeradwyo'r datganiad hwn i'w holl eglwysi, a gallwch ei weld ar ein gwefan. Mae angen gweddi ar frys am hyn dros yr wythnosau nesaf, ac mae gorymdaith wedi'i threfnu yng Nghaerdydd ar gyfer Tachwedd 6ed am hanner dydd.

Mae Cymorth Cristnogol wedi darparu adnoddau i'n helpu i weddio i hyn mewn ffordd ystyriol: [www.christianaid.org.uk/get-involved/campaigns/climate-justice-every-moment-matters](http://www.christianaid.org.uk/get-involved/campaigns/climate-justice-every-moment-matters)



Ac ar draws...  
**Y Byd**



## Deg munud yng nghwmni... *Hannah Smethurst*

Mae yna bobl o bob math yn ein heglwysi, a storïau gwahanol o sut mae Duw wedi gweithio yn eu bywydau. Y tro hwn, dyma lynu at thema interniaeth a chwrrdd ag un o'r interniaid presennol...

### **Mae'n hyfryd cael cwrdd â ti! I'r rhai ohonom sydd ddim yn dy nabod, dweda wrthyn ni pwy wyt ti...**

Wel, Hannah ydw i! Dwi'n 24 oed, yn wreiddiol o Lanelli a nawr yma yng Nghaernarfon. Dwi'n hoff o bobi cacennau – dyna lle byddwch chi'n ffeindio fi os oes cwpwl o oriau sbâr gen i. A dwi'n hoffi bod tu allan yn y greadigaeth hefyd. O Lanelli byddwn i'n mynd lan i Ben y Fan ac yma mae digonedd o ddewis hefyd.

### **Sut dest ti i nabod Iesu?**

Wel, fe ges i fy magu o fewn i deulu Cristnogol, a chlywed yr efengyl yno ac mewn clybiau plant ac ati yn y capel. Ro'n i wrth fy modd ac yn gallu gweld bod gan y bobl yno ryw beth arbennig. Pan o'n i'n bump neu chwech dyma fi'n cael sgwrs gyda fy rhieni a dweud fy mod i eisïau Iesu yn fy mywyd. Ers hynny dwi wedi bod yn dysgu o dipyn i beth i'w ddilyn e!

### **Beth yw'r interniaeth a sut dest ti i'w wneud e?**

Blwyddyn o waith gydag eglwys leol yw'r interniaeth yn y bôn, ond yn fwy na hynny mae'n gyfle i ddarganfod eich doniau a chynlluniau Duw ar gyfer eich bywyd. Bues i yn rhan o Dim i Gymru yn Arfon yn 2018/19 ar ôl gorffen yn y brifysgol. Roedd hi'n flwyddyn llawn bendith ac ron i'n teimlo galwad Duw i genhadaeth yng Nghymru. Symudais i adre i weithio mewn ysgol gynradd a gweddio y byddai Duw yn dangos y ffordd ymlaen i mi. Dyma fi'n siarad gyda phobl ron i'n nabod i geisio arweiniad a dyma fi'n dechrau cynllun Derwen ym mis Medi y llynedd. Ac yna des i

glywed am yr interniaeth, cael sgwrs gyda'r Undeb, cyfweiliad...a dyma fi!

### **Dim ond newydd ddechrau wyt ti yno yng Nghaersalem – ond oes uchafbwynt hyd yn hyn y gallet ti rannu gyda ni?**

Byddai'n rhaid i mi ddweud taw'r gwasanaethau ar y Sul! Ar ôl y cyfnod pandemig a'r holl bethau dros zoom, mae cael bod yn y capel, a hwnnw'n llawn a plant a phobl o bob oed yno yn cyd-addoli – mae hynny wedi bod yn wefr go iawn. Dwi'n teimlo i mi gael gweld yr eglwys go iawn unwaith eto, a honno'n llawn bywyd!

### **Gwych! A beth yw dy obeithion neu gynlluniau at y flwyddyn sydd i ddod?**

Dwi eisïau tyfu mewn perthynas gyda phobl y capel, a helpu pobl i ddod i nabod Iesu'n well. Ac un ffordd penodol o wneud hynny ydy trwy'r clwb ieuenctid wythnosol. Mewn gwirionedd, dwi jest yn gobeithio cael profiadau eang o fewn bywyd yr eglwys, gan gynnwys rhai sy tu fas i fy 'comfort zone' personol i! Ac yn fyw na hynny, dwi eisïau gweld yn fwy glir a phenodol cynllun Duw ar gyfer fy mywyd i ac ar gyfer yr eglwys yn Nghymru.

### **Sut gallwn ni weddio drosot ti, Hannah?**

Diolch! Tri pheth bach efallai:

- 1) Y byddwn i'n ffeindio nhraed yn gyflym ac yn darganfod rhythm wythnosol dda
- 2) Y byddwn i'n tyfu yn fy mherthnasau yma ac yn medru adeiladu rhai ystyrion
- 3) I mi wneud y gorau o'r flwyddyn sydd i ddod

Ydych chi'n adnabod rhywun ifanc allai elwa o'r cynllun interniaeth? Ebostiwch [simeon@ubc.cymru](mailto:simeon@ubc.cymru) am fanylion pellach.

Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn hwn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater. Swyddfa gofrestrdig:

Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ

Ffôn: 0345 222 1514 [9-5 Llun - Gwener]

[post@ubc.cymru](mailto:post@ubc.cymru)

[www.ubc.cymru](http://www.ubc.cymru)

